



# Cronfa i hepu pobl anabl i sefyll am etholiad yng Nghymru

## Beth mae pobl wedi ei ddweud



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Ymgynghoriad – crynodeb o ymateb: Mynediad i Gronfa Swydd Etholedig'.

Chwefror 2021

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall, ond efallai y byddwch angen cymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi'i roi mewn blwch o dan y gair.



Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto, mae mewn **ysgrifen glas normal**. Rydych chi'n gallu edrych i weld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 14**.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wyboaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** [llyw.cymru/mynediad-gronfa-sefyll-mewn-etholiad](http://llyw.cymru/mynediad-gronfa-sefyll-mewn-etholiad)

**E-bost:** [LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales](mailto:LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales)



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

## Tudalen

<b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>4</b>
<b>Beth mae pobl wedi ei ddweud.....</b>	<b>6</b>
Cwestiwn 1 – Pwy sydd yn gallu gwneud cais am y gronfa.....	6
Cwestiwn 2 – Cyfyngiadau ar faint rydyn ni'n ei roi.....	8
Cwestiwn 3 – Sut rydyn ni'n rheoli'r gronfa.....	9
Cwestiwn 4 – Stopio cymorth ar ôl yr etholiad.....	10
Cwestiwn 5 – Pan mae ymgeiswyr yn newid eu meddwl am gymryd rhan mewn etholiad.....	12
Cwestiwn 6 – Enw'r gronfa.....	13
<b>Geiriau anodd.....</b>	<b>14</b>

# Cyflwyniad



Rhwng **Tachwedd 2020** a **Ionawr 2021**, fe wnaethon ni ofyn i bobl beth roedden nhw'n feddwl am ein cynlluniau ar gyfer **Cronfa Mynediad i Swydd Etholiadol Cymru**.



Rydych chi'n gallu dysgu rhagor am hyn ar ein gwefan: [llyw.cymru/mynediad-gronfa-sefyll-mewn-etholiad](http://llyw.cymru/mynediad-gronfa-sefyll-mewn-etholiad)



Rydyn ni'n dechrau'r **Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol Cymru** i helpu pobl anabl i sefyll am **etholiad**.



**Etholiad** ydy pan mae pawb yn pleidleisio dros y person maen nhw eisiau i'w cynrychioli.



Fe fydd person yn rhoi ei enw ymlaen ac yn gofyn i bobl bleidleisio iddyn nhw. Enw'r person yma ydy **ymgeisydd**.



Mae'r ddogfen yma am beth mae pobl wedi ei ddweud.



Fe wnaethon ni weithio gydag **Anabledd Cymru** i gael cymaint o bobl â phosibl i ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl.

Fe wnaethon ni gael 48 o ymatebion:



- Roedd 32 o ymatebion wedi cael eu hysgrifennu gan bobl



- Roedd 5 wedi cael eu hysgrifennu gan gynghorau



- Ac roedd 11 wedi cael eu hysgrifennu ar ran corff.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud

## Cwestiwn 1 – Pwy sydd yn gallu gwneud cais am y gronfa



Sut ddylen ni benderfynu os ydy rhywun yn gallu gwneud cais am gyllid fel ymgeisydd anabl?

- Drwy ofyn am brawf meddygol o fod yn anabl?
- Drwy ofyn i bobl ddiffinio eu hunain fel person anabl?



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno os ydy person yn disgrifio eu hunain fel person anabl, fe ddylen nhw allu gwneud cais am y gronfa yma.



Dywedodd rhai ymatebion y dylai pobl gael prawf meddygol i wneud cais.



Roedden nhw'n dweud y byddai hyn yn stopio pobl rhag cymryd mantais o'r gronfa. Ac y byddai yn ffordd mwy gonest a chywir o roi arian cyhoeddus.



Ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn dweud eu bod yn poeni y byddai gofyn i bobl am brawf meddygol yn eu stopio efallai rhag sefyll mewn **etholiad**.



Fe wnaeth llawer o bobl ddweud hefyd nad ydy'r diffiniad o anabledd yn y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn dda iawn.



Roedd pobl yn dweud y byddai gofyn am brawf meddygol yn mynd yn groes i'r **Model Cymdeithasol o Anabledd**, dull mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n ei ddefnyddio yn ei holl waith.



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn dweud nad ydy person yn anabl drwy ei nam neu wahaniaeth. Mae person yn anabl drwy bethau yn ein cymdeithas.



Fe wnaeth ymatebion ddweud y dylen ni ddefnyddio'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** wrth feddwl am pwy ddylai allu gwneud cais am y gronfa yma.

## Cwestiwn 2 – Cyfyngiadau ar faint rydyn ni'n ei roi



**Ydych chi'n cytuno na ddylid cael unrhyw gyfyngiad ar faint y mae pob ymgeisydd anabl yn gallu gwneud cais amdano?**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno **na** ddylid cael cyfyngiad ar faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano.



Roedd rhai pobl yn anghytuno.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud y dylai faint o arian mae person yn ei gael fod yn seiliedig ar eu hanghenion.



Roedd rhai pobl yn dweud bod cael cyfyngiad ar faint o arian rydych chi'n gallu ei gael efallai yn helpu'r gronfa i gefnogi rhagor o bobl.



## Cwestiwn 3 – Sut rydyn ni'n rheoli'r gronfa



**Ydych chi'n cytuno y dylai Anabledd Cymru helpu ymgeiswyr i brynu gwasanaethau ac offer?**



Roedd bron pawb yn cytuno y gallai Anabledd Cymru roi cymorth.



Ond roedden nhw'n dweud mai dim ond os ydy'r person eisiau hynny y dylai Anabledd Cymru roi cymorth.



Mae angen inni roi'r dewis i bobl.

## Cwestiwn 4 – Stopio cymorth ar ôl yr etholiad



Ydych chi'n cytuno y dylai ymgeiswyr stopio cael cymorth o'r gronfa yma ar ôl yr etholiad?



Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno y dylai **ymgeiswyr** stopio cael cymorth o'r gronfa yma ar ôl yr **etholiad**.



Roedd pobl yn dweud os oedd **ymgeisydd** yn ennill eu **hetholiad**, fe ddylai'r corff maen nhw wedi cael ei ethol iddo wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r gefnogaeth i wneud eu gwaith.



Roedd rhai pobl yn poeni **na** fyddai **ymgeiswyr** yn cael y lefel o gefnogaeth roedden nhw ei angen ar ôl iddyn nhw ennill **etholiad**.

Roedd pobl yn dweud y dylai **ymgeiswyr** gael y cymorth cywir yr holl amser:



- wrth sefyll am **etholiad**



- ar ôl ennill **etholiad**



- ac wrth wneud y gwaith maen nhw wedi cael eu hethol i'w wneud.



Roedd nifer fechan o ymatebion yn dweud y dylai'r gronfa yma barhau i gefnogi pobl ar ôl ennill **etholiad**.

## Cwestiwn 5 – Pan mae ymgeiswyr yn newid eu meddwl am gymryd rhan mewn etholiad



Efallai bod ymgeiswyr yn newid eu meddwl am gymryd rhan mewn etholiad. Ydych chi'n cytuno y dylen ni edrych ar sefyllfa pob unigolyn cyn gofyn iddyn nhw dalu unrhyw arian yn ôl?



Roedd rhai ymatebion yn cytuno y dylen ni edrych ar sefyllfa pob person cyn gofyn iddyn nhw dalu unrhyw arian yn ôl.



Roedd dros hanner yr ymatebion yn dweud **na** ddylen ni gymryd unrhyw arian yn ôl. Oherwydd efallai byddai hynny'n ddrwg i iechyd a llesiant y person.



Roedd pobl yn dweud y dylai **ymgeiswyr** ddweud wrth **Anabledd Cymru** cyn gynted â'u bod yn newid eu meddwl am fod yn **ymgeisydd**. Ac yna ni ddylai dim mwy o arian gael ei roi i'r person yna.

## Cwestiwn 6 – Enw'r gronfa



**Ydych chi'n meddwl y dylai'r gronfa gael ei galw yn Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig?**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno y dylai'r gronfa yma gael ei galw yn **Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig**.



Roedd pobl yn dweud bod enw'r gronfa yr un fath mewn rhannau eraill o'r DU. Fe fydd cadw'r enw yr un fath ar draws y DU yn ei gwneud yn fwy hawdd i bobl sydd yn chwilio am gymorth.

# Geiriau anodd

## Etholiad

Etholiad ydy pan mae pawb yn pleidleisio dros y person maen nhw eisiau i'w cynrychioli nhw.

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn dweud nad ydy person yn anabl oherwydd eu nam neu wahaniaeth. Mae person yn anabl drwy bethau yn ein cymdeithas.

## Ymgeisydd

Ymgeisydd ydy person sydd yn rhoi eu henwau ymlaen ac yn gofyn i bobl bleidleisio iddyn nhw mewn etholiad.